***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 940 (Cy.89)

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU
# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Plant (Trefniadau Preifat ar gyfer Maethu) (Cymru) 2006

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *28 Mawrth 2006* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 67(2), 2(A), (6) ac adran 104(4) o Ddeddf Plant 1989 a pharagraff 7 o Atodlen 8 iddi,(**1**) a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol—

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Plant (Trefniadau Preifat ar gyfer Maethu) (Cymru) 2006.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2006.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn,

ystyr "awdurdod lleol priodol" ("*appropriate local authority*") yw—

(i) yr awdurdod lleol y maethir y plentyn yn breifat yn ei ardal; neu

(ii) yn achos cynnig i faethu plentyn yn breifat, yr awdurdod lleol y cynigir bod y plentyn yn cael ei faethu'n breifat yn ei ardal;

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw diwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, yn Ddydd Nadolig, yn Ddydd Gwener y Groglith nac yn ŵyl y banc o fewn ystyr Deddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Plant 1989; ac

(**1**) 1989 p.41. Mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf 1989 yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd cynnwys Deddf 1989 yn Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) (*gweler* erthygl 2(a) o Orchymyn 1999 ac adran 22(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38)).

ystyr "gofalydd maeth preifat" ("*private foster carer*") yw person sy'n maethu plentyn yn breifat.

### Hysbysiad o gynnig i faethu plentyn yn breifat

**3.**—(1) Rhaid i berson sy'n cynnig maethu plentyn yn breifat hysbysu'r awdurdod lleol priodol o'r cynnig—

(a) o leiaf chwe wythnos cyn bod y trefniant maethu preifat i gychwyn; neu

(b) os yw'r trefniant maethu preifat i gychwyn o fewn chwe wythnos, ar unwaith.

(2) Rhaid i unrhyw berson sy'n ymwneud a threfnu (p'un ai'n uniongyrchol ai peidio) i blentyn gael ei faethu'n breifat hysbysu'r awdurdod lleol priodol o'r trefniant cyn gynted â phosibl ar ôl i'r trefniant gael ei wneud.

(3) Rhaid i riant plentyn, a pherson nad yw'n rhiant ond bod ganddo gyfrifoldeb rhiant am y plentyn, nad yw'n ymwneud â threfnu (p'un ai'n uniongyrchol ai peidio) ar gyfer maethu'r plentyn yn breifat, ond sy'n gwybod bod cynnig i faethu'r plentyn yn breifat, hysbysu'r awdurdod lleol priodol o'r cynnig cyn gynted â phosibl ar ôl dod yn ymwybodol o'r trefniant.

(4) Rhaid i hysbysiad a roddir o dan baragraffau (1) i (3) gynnwys cymaint o'r wybodaeth honno a bennir yn Atodlen 1 y mae'r person sy'n rhoi'r hysbysiad yn gallu ei darparu.

### Camau i'w cymryd gan awdurdod lleol pan geir hysbysiad o gynnig i faethu plentyn yn breifat

**4.**—(1) Os bydd awdurdod lleol wedi cael hysbysiad o dan reoliad 3 rhaid iddo drefnu, er mwyn cyflawni ei ddyletswydd o dan adran 67(1) o'r Ddeddf (lles plant a faethir yn breifat), bod swyddog o'r awdurdod o fewn saith o ddiwrnodau gwaith—

(a) yn ymweld â'r fangre y cynigir y gofalir am y plentyn ynddi a'i letya ynddi;

(b) yn ymweld â'r gofalydd maeth preifat arfaethedig ac yn siarad ag ef a chyda phob un o aelodau'r aelwyd;

(c) yn ymweld â'r plentyn ac yn siarad ag ef, ar ei ben ei hun onid yw'r swyddog yn ystyried bod hynny'n amhriodol;

(ch) yn siarad â phob rhiant, neu berson sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn, ac yn ymweld â hwy os yw hynny'n ymarferol; a

(d) cadarnhau'r materion hynny a restrir yn Atodlen 2 sy'n ymddangos i'r swyddog eu bod yn berthnasol.

(2) Ar ôl cwblhau'r swyddogaethau o dan baragraff (1) rhaid i'r swyddog lunio adroddiad ysgrifenedig i'r awdurdod lleol.

### Hysbysiad gan berson sydd eisoes yn maethu plentyn yn breifat

**5.**—(1) Rhaid i berson sy'n maethu plentyn yn breifat ond nad yw wedi hysbysu'r awdurdod lleol priodol yn unol â rheoliad 3 hysbysu'r awdurdod lleol priodol ar unwaith.

(2) Rhaid i hysbysiad a roddir o dan baragraff (1) gynnwys cymaint o'r wybodaeth a bennir yn Atodlen 1 ag y gall y person sy'n rhoi'r hysbysiad ei darparu.

### Hysbysiad bod plentyn yn mynd i fyw gyda gofalydd maeth preifat

**6.**—(1) Rhaid i berson a roddodd hysbysiad o dan reoliad 3(1), o fewn 48 awr ar ôl cychwyn y trefniant, hysbysu'r awdurdod lleol priodol o'r ffaith.

(2) Rhaid i riant plentyn, ac unrhyw berson arall sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn, sydd wedi rhoi hysbysiad o dan reoliad 3(2) neu 3(3) o fewn 48 awr ar ôl i'r plentyn fynd i fyw at ofalydd maeth preifat, hysbysu'r awdurdod lleol priodol o'r ffaith.

### Camau i'w cymryd gan awdurdod lleol pan ddaw hysbysiad i law am blentyn a faethir yn breifat

**7.** Os yw awdurdod lleol wedi cael hysbysiad o dan reoliad 5 neu 6, er mwyn cyflawni ei ddyletswydd o dan adran 67(1) o'r Ddeddf rhaid iddo drefnu bod swyddog o'r awdurdod o fewn saith o ddiwrnodau gwaith—

(a) yn ymweld â'r fangre y gofalir am y plentyn ynddi a'i letya ynddi;

(b) yn ymweld â'r gofalydd maeth preifat ac yn siarad ag ef a chyda phob un o aelodau aelwyd y gofalydd maeth preifat;

(c) yn ymweld â'r plentyn ac yn siarad ag ef, ar ei ben ei hun onid yw'r swyddog yn ystyried bod hynny'n amhriodol;

(ch) yn siarad â phob rhiant, neu berson sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn, ac yn ymweld â hwy os yw hynny'n ymarferol; a

(d) yn cadarnhau'r materion hynny a restrir yn Atodlen 3 sy'n ymddangos i'r swyddog eu bod yn berthnasol.

(2) Ar ôl iddo gwblhau ei swyddogaethau o dan baragraff (1) rhaid i'r swyddog lunio adroddiad ysgrifenedig i'r awdurdod lleol.

### Ymweliadau dilynol â phlant a faethir yn breifat

**8.**—(1) Rhaid i bob awdurdod lleol drefnu bod swyddog o'r awdurdod yn ymweld â phob plentyn a faethir yn breifat yn ei ardal—

(a) ym mlwyddyn gyntaf y trefniant maethu preifat ar ôl bylchau nad ydynt yn fwy na chwe wythnos; a

(b) mewn ail flwyddyn neu unrhyw flwyddyn wedyn, ar ôl bylchau nad ydynt yn fwy na 12 wythnos.

(2) Yn ychwanegol at ymweliadau a wneir yn unol â pharagraff (1) rhaid i'r awdurdod lleol drefnu bod pob plentyn a faethir yn breifat yn ei ardal yn cael ymweliad gan swyddog pan wneir cais rhesymol am hynny gan y plentyn, y gofalydd maeth preifat, rhiant y plentyn neu unrhyw berson arall sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn.

(3) Pan wneir ymweliad o dan y rheoliad hwn rhaid i'r swyddog siarad â'r plentyn ar ei ben ei hun onid yw o'r farn bod hynny'n amhriodol.

(4) Pan wneir ymweliad o dan y rheoliad hwn rhaid i'r swyddog gadarnhau'r materion hynny a restrir yn Atodlen 3 y mae'n ymddangos i'r swyddog eu bod yn berthnasol.

(5) Rhaid i'r swyddog wneud adroddiad ysgrifenedig i'r awdurdod lleol ar ôl pob ymweliad a wnaed yn unol â'r rheoliad hwn.

(6) At ddibenion y rheoliad hwn, bernir bod y trefniant maethu preifat yn cychwyn pan ddaw'r awdurdod lleol yn ymwybodol ohono.

### Hysbysiad o newid mewn amgylchiadau

**9.**—(1) Rhaid i ofalydd maeth preifat hysbysu'r awdurdod lleol priodol—

(a) o unrhyw newid yn ei gyfeiriad;

(b) o unrhyw berson sy'n peidio â bod yn rhan o'i aelwyd neu'n gyflogedig ar ei aelwyd;

(c) o unrhyw dramgwydd pellach y collfarnwyd y gofalydd maeth preifat ohono neu berson sy'n rhan o'i aelwyd neu a gyflogir ar ei aelwyd;

(ch) o unrhyw ddatgymhwysiad pellach a osodwyd arno neu ar berson sy'n rhan o'i aelwyd neu a gyflogir ar ei aelwyd o dan adran 68 o'r Ddeddf; ac

(d) os oes unrhyw berson yn dechrau bod yn rhan o aelwyd y gofalydd maeth preifat neu'n gyflogedig ar ei aelwyd, ac unrhyw dramgwydd y collfarnwyd y person hwnnw ohono, ac unrhyw ddatgymhwysiad neu waharddiad a osodwyd arno o dan adran 68 neu 69 o'r Ddeddf neu o dan unrhyw ddeddfiad blaenorol o unrhyw un o'r ddwy adran honno.

(2) Rhaid i hysbysiad o dan baragraff (1) gael ei roi—

(a) ymlaen llaw pan fo hynny'n ymarferol;

(b) ym mhob achos arall, dim mwy na 48 awr ar ôl y newid mewn amgylchiadau.

(3) Os bydd cyfeiriad newydd y gofalydd maeth preifat yn ardal awdurdod lleol arall, neu awdurdod lleol yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon, rhaid i'r awdurdod y cyflwynir yr hysbysiad iddo o dan y rheoliad hwn anfon at yr awdurdod dros yr ardal—

(a) enw a chyfeiriad newydd y gofalydd maeth preifat;

(b) enw'r plentyn a faethir yn breifat; ac

(c) enw a chyfeiriad rhieni'r plentyn neu unrhyw berson arall sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn.

(4) Rhaid i riant plentyn a faethir yn breifat, ac unrhyw berson arall sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn, sy'n gwybod bod y plentyn yn cael ei faethu yn breifat, hysbysu'r awdurdod lleol priodol o unrhyw newid yng nghyfeiriad personol y person hwnnw.

**Hysbysiad o ddiwedd trefniant maethu preifat**

**10.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), rhaid i unrhyw berson a fu'n maethu plentyn yn breifat, ond sydd wedi gorffen gwneud hynny, hysbysu'r awdurdod lleol priodol o fewn 48 awr a rhaid iddo gynnwys yn yr hysbysiad enw a chyfeiriad y person y derbyniwyd y plentyn i'w ofal a pherthynas y person hwnnw â'r plentyn.

(2) Os bu unrhyw berson yn maethu plentyn yn breifat, ond mae wedi gorffen gwneud hynny, oherwydd bod y plentyn wedi marw, yn yr hysbysiad rhaid i'r person hwnnw nodi mai dyna yw'r rheswm.

(3) Ni fydd paragraff (1) yn gymwys os bydd y gofalydd maeth preifat yn bwriadu ailddechrau'r trefniant maethu preifat ar ôl bwlch nad yw'n fwy na 27 diwrnod ond—

(a) os bydd y gofalydd maeth preifat wedyn yn rhoi'r gorau i'w fwriad; neu

(b) os yw'r bwlch yn dod i ben ac nad yw'r gofalydd maeth preifat wedi gweithredu ei fwriad,

rhaid i'r gofalydd maeth preifat hysbysu'r awdurdod lleol o fewn 48 awr ar ôl iddo roi'r gorau i'w fwriad neu, yn ôl y digwydd, ar ôl i'r bwlch ddod i ben.

(4) Rhaid i unrhyw riant i blentyn a faethir yn breifat, ac unrhyw berson arall sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn, sydd wedi rhoi hysbysiad i'r awdurdod lleol o dan reoliad 3(2) neu (3), hysbysu'r awdurdod lleol priodol o ddiweddu'r trefniant maethu preifat a rhaid iddynt gynnwys hefyd yn yr hysbysiad enw a chyfeiriad y person y derbyniwyd y plentyn i'w ofal a pherthynas y person hwnnw â'r plentyn.

**Ffurf yr hysbysiadau**

**11.** Rhaid i unrhyw hysbysiad sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau hyn gael ei roi'n ysgrifenedig a chaniateir ei anfon drwy'r post.

**Monitro cyflawni'r swyddogaethau o dan Ran 9 o'r Ddeddf**

**12.** Rhaid i bob awdurdod lleol fonitro'r dull y mae'n cyflawni ei swyddogaethau o dan Ran 9 o'r Ddeddf a rhaid iddo benodi swyddog o'r awdurdod lleol at y diben hwnnw.

**Dirymu a darpariaeth drosiannol**

**13.** Dirymir Rheoliadau Plant (Trefniadau ar gyfer Maethu Preifat) 1991(**2**) i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru, ac eithrio bod unrhyw hysbysiad a roddwyd o dan y Rheoliadau hynny cyn bod y Rheoliadau hyn yn dod i rym yn cael ei drin fel pe bai wedi'i roi o dan y Rheoliadau hyn.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

*D. Elis-Thomas*
28 Mawrth 2006 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**2**) O.S. 1991/2050.
(**3**) 1998 p.38.

## ATODLEN 1

Rheoliadau 3 a 5

## YR WYBODAETH SYDD I'W DARPARU YN YR HYSBYSIAD

**1.** Yr wybodaeth y cyfeirir ati yn rheoliad 3(4) a 5(2) yw—

(a) enw, rhyw, dyddiad a man geni, cred grefyddol, tarddiad hiliol a chefndir diwylliannol ac ieithyddol y plentyn;

(b) enw a chyfeiriad presennol y person sy'n rhoi'r hysbysiad ac unrhyw gyfeiriad blaenorol a fu ganddo yn ystod y pum mlynedd diwethaf;

(c) enw a chyfeiriad presennol gofalydd maeth arfaethedig y plentyn neu ofalydd maeth presennol y plentyn ac unrhyw gyfeiriad blaenorol a fu ganddo yn ystod y pum mlynedd diwethaf;

(ch) hyd arfaethedig y trefniant maethu preifat;

(d) enw a chyfeiriad presennol rhieni'r plentyn ac unrhyw berson arall sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn ac (os yw'n wahanol) unrhyw berson arall y derbynnir neu y derbyniwyd y plentyn oddi wrtho;

(dd) enw a chyfeiriad presennol brodyr a chwiorydd y plentyn sy'n finoriaid, a manylion y trefniadau am eu gofal;

(e) enw a chyfeiriad presennol unrhyw berson, heblaw person a bennir yn is-baragraff (d), sydd â rhan neu a fu â rhan (p'un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) wrth drefnu i'r plentyn gael ei faethu'n breifat; a

(f) y dyddiad y bwriedir bod y trefniant maethu yn cychwyn, neu'r dyddiad pan gychwynnodd.

**2.** Yn achos person sy'n rhoi hysbysiad o dan reoliad 3(1) neu 5(1) mae'r wybodaeth y cyfeirir ati yn rheoliad 3(4) a 5(2) hefyd yn cynnwys—

(a) unrhyw dramgwydd y collfarnwyd ef ohono;

(b) unrhyw ddatgymhwysiad neu waharddiad a osodwyd arno o dan adran 68 neu 69 o'r Ddeddf neu o dan unrhyw ddeddfiad blaenorol o unrhyw un o'r adrannau hynny;

(c) unrhyw gollfarn, datgymhwysiad neu waharddiad o'r fath a osodwyd ar unrhyw berson arall sy'n byw ar yr un aelwyd neu a gyflogir ar yr un aelwyd.

(ch) unrhyw orchymyn o fath a bennir mewn rheoliadau o dan adran 68 o'r Ddeddf a wnaed ar unrhyw adeg yn ei gylch;

(d) unrhyw orchymyn o fath a bennir mewn rheoliadau o dan adran 68 o'r Ddeddf a wnaed ar unrhyw adeg o ran plentyn a fu yn ei ofal; ac

(dd) unrhyw hawl neu bŵer ynglŷn â phlentyn sydd neu a fu o dan ei ofal a gafodd eu breinio ar unrhyw adeg mewn awdurdod a bennwyd mewn rheoliadau o dan adran 68 o'r Ddeddf o dan ddeddfiad a bennir yn y rheoliadau hynny.

## ATODLEN 2

Rheoliad 4

## LLES PLANT SYDD I'W MAETHU YN BREIFAT

Y materion y cyfeiriwyd atynt yn rheoliad 4(1)(d) yw—

(a) bod hyd arfaethedig y trefniant wedi cael ei ddeall a'i gytuno rhwng—

(i) rhiant y plentyn neu unrhyw berson arall â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn; a

(ii) y gofalydd maeth preifat arfaethedig;

(b) dymuniadau a theimladau'r plentyn am y trefniant arfaethedig (a'u hystyried yng ngoleuni ei oedran a'i ddeall);

(c) addasrwydd y llety arfaethedig;

(ch) gallu'r gofalydd maeth preifat arfaethedig i edrych ar ôl y plentyn;

(d) addasrwydd aelodau eraill o aelwyd y gofalydd maeth preifat arfaethedig;

(dd) bod y trefniadau a gytunir ar gyfer cyswllt rhwng y plentyn a'i rieni, personau eraill sydd â chyfrifoldeb rhiant amdano, a phersonau eraill sy'n arwyddocaol i'r plentyn, wedi cael eu cytuno a'u deall ac y bydd y trefniadau hynny'n foddhaol ar gyfer y plentyn;

(e) bod y rhieni neu berson arall sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn wedi cytuno ar drefniadau ariannol â'r gofalydd maeth preifat arfaethedig ar gyfer gofalu am y plentyn a'i gynnal;

(f) bod ystyriaeth wedi'i rhoi a'r camau angenrheidiol wedi'u cymryd i wneud trefniadau ar gyfer gofal meddygol, deintyddol ac optegol a thriniaeth feddygol, ddeintyddol ac optegol y plentyn;

(ff) bod ystyriaeth wedi'i rhoi a'r camau angenrheidiol wedi'u cymryd i wneud trefniadau ar gyfer addysg y plentyn;

(g) sut y gwneir penderfyniadau ynghylch gofal y plentyn; ac

(ng) a yw'r gofalydd maeth preifat arfaethedig, rhieni'r plentyn, unrhyw berson arall sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn, neu unrhyw berson arall sy'n ymwneud â'r plentyn yn cael y cyngor hwnnw y mae'n ymddangos i'r awdurdod bod ei angen.

## ATODLEN 3

Rheoliadau 7 ac 8

## LLES PLANT A FAETHIR YN BREIFAT

**3.** Y materion y cyfeiriwyd atynt yn rheoliadau 7(1)(d) ac 8(4) yw—

(a) bod diben a hyd arfaethedig y trefniant maethu yn cael ei ddeall a'i gytuno rhwng—

(i) rhieni'r plentyn neu unrhyw berson arall â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn; a

(ii) y gofalydd maeth preifat;

(b) dymuniadau a theimladau'r plentyn am y trefniant (a'u hystyried yng ngoleuni ei oedran a'i ddeall);

(c) bod datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol y plentyn a datblygiad ei ymddygiad yn briodol a boddhaol;

(ch) bod anghenion y plentyn sy'n codi o'i gred grefyddol, ei darddiad hiliol, a'i gefndir diwylliannol ac ieithyddol yn cael eu diwallu;

(d) bod y trefniadau ariannol ar gyfer gofalu am y plentyn a'i gynnal yn gweithio;

(dd) gallu'r gofalydd maeth preifat i edrych ar ôl y plentyn;

(e) addasrwydd y llety;

(f) bod y trefniadau ar gyfer gofal meddygol, deintyddol ac optegol a thriniaeth feddygol, ddeintyddol ac optegol, wrth law, ac yn benodol, fod y plentyn wedi'i roi ar restr person sy'n darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol yn unol â Rhan 1 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977;

(ff) y trefniadau ar gyfer addysg y plentyn;

(g) safon y gofal a roddir i'r plentyn;

(ng) addasrwydd aelodau aelwyd y gofalydd maeth preifat;

(h) a yw'r gofalydd maeth preifat, rhieni'r plentyn, unrhyw berson arall sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn, neu unrhyw berson arall sy'n ymwneud â'r plentyn yn cael y cyngor hwnnw y mae'n ymddangos i'r awdurdod bod ei angen;

(i) sut y gwneir penderfyniadau am ofal y plentyn; ac

(l) a yw'r cyswllt rhwng y plentyn a'i rieni, neu unrhyw berson arall y trefnwyd cyswllt ag ef, yn foddhaol ar gyfer y plentyn.

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu a disodli Rheoliadau Plant (Trefniadau Preifat ar gyfer Maethu) 1991 o ran Cymru, heblaw bod unrhyw hysbysiad a gyflwynwyd o dan y Rheoliadau hynny i'w drin fel pe bai wedi ei gyflwyno o dan y Rheoliadau hyn. Mae hyn yn dilyn diwygiadau i'r cynllun hysbysu maethu preifat a wnaed gan adran 44 o Ddeddf Plant 2004.

Mae rheoliad 3 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n cynnig maethu plentyn yn breifat, unrhyw berson sy'n ymwneud â threfnu (p'un ai'n uniongyrchol ai peidio) ar gyfer maethu'r plentyn yn breifat, a rhiant y plentyn neu berson arall sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn sy'n gwybod bod cynnig i faethu'r plentyn yn breifat, i hysbysu'r awdurdod lleol ymlaen llaw bod y trefniant yn cychwyn. Rhaid i hysbysiad gan y gofalydd maeth preifat arfaethedig gael ei roi o leiaf chwe wythnos cyn bod y trefniant maethu preifat i gychwyn, neu os yw'r trefniant i gychwyn o fewn chwe wythnos yna ar unwaith. Rhaid i bawb arall y mae'n ofynnol iddynt roi hysbysiad o dan reoliad 3 wneud hynny cyn gynted â phosibl ar ôl i'r trefniant gael ei wneud, neu cyn gynted â phosibl ar ôl iddynt ddod yn ymwybodol o'r trefniant.

Dylai'r hysbysiad gynnwys cymaint o'r wybodaeth honno a osodir yn Atodlen 1 y gall y person sy'n rhoi'r hysbysiad ei rhoi.

Ar ôl iddo gael hysbysiad rhaid i'r awdurdod lleol wedyn drefnu bod swyddog o'r awdurdod yn ymweld â'r lle y bydd y plentyn yn byw a siarad â'r gofalydd maeth preifat arfaethedig, aelodau ei aelwyd, y plentyn ac eraill (rheoliad 4) a chadarnhau'r materion hynny a restrir yn Atodlen 2 sy'n ymddangos yn berthnasol i'r swyddog. Yna rhaid i'r swyddog lunio adroddiad ysgrifenedig i'r awdurdod.

Mae rheoliad 5 yn gosod y gofyniad i hysbysu'r awdurdod lleol o'r trefniant os na roddwyd hysbysiad o dan reoliad 3. Mae rheoliad 6 yn gosod y gofyniad i hysbysu awdurdod lleol pan fydd trefniant maethu preifat yr hysbyswyd hwy ohono o dan reoliad 3 yn cychwyn mewn gwirionedd. Ar ôl iddo gael hysbysiad o dan naill ai reoliad 5 neu reoliad 6 rhaid i'r awdurdod lleol drefnu bod swyddog yn gwneud ymweliadau ac yn cadarnhau'r materion hynny a restrir yn Atodlen 3 sy'n ymddangos i'r swyddog eu bod yn berthnasol (rheoliad 7).

Mae rheoliad 8 yn ymwneud ag ymweliadau'r awdurdod lleol â'r plentyn cyn gynted ag y bydd y trefniant maethu preifat wedi cychwyn. Mae'n darparu pryd y dylai ymweliadau ddigwydd a beth ddylai swyddog o'r awdurdod ei wneud wrth ymweld. Ar ôl pob ymweliad mae'n ofynnol i'r swyddog lunio adroddiad ysgrifenedig i'r awdurdod lleol.

Mae'n ofynnol i ofalwyr maeth preifat hysbysu'r awdurdod lleol o newidiadau penodol mewn amgylchiadau, megis newid yn y cyfeiriad neu pan fydd rhywun yn ymuno neu'n ymadael â'r aelwyd.

Os bydd y gofalydd maeth preifat yn symud i ardal awdurdod lleol arall yna mae'n ofynnol bod gwybodaeth benodol yn cael ei rhoi i'r awdurdod lleol dros yr ardal newydd gan yr awdurdod lleol dros yr hen ardal. Rhaid i riant plentyn a faethir yn breifat, neu berson arall sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn, sy'n gwybod bod y plentyn yn cael ei faethu'n breifat hysbysu'r awdurdod lleol o newid yn y cyfeiriad (rheoliad 9).

Mae rheoliad 10 yn ymwneud â hysbysu diwedd y trefniant. Rhaid i berson a fu'n maethu plentyn yn breifat hysbysu'r awdurdod lleol o fewn 48 awr o ddiweddu maethu'r plentyn yn breifat, ac os y rheswm dros ddiweddu'r trefniant yw bod y plentyn wedi marw, yna rhaid i'r person ddweud wrth yr awdurdod lleol mai hwnnw yw'r rheswm.

Rhaid i bob hysbysiad a roddir o dan y Rheoliadau hyn fod yn ysgrifenedig (rheoliad 11).

Mae rheoliad 12 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fonitro'r dull y maent yn cyflawni eu swyddogaethau o ran plant a faethir yn breifat ac i benodi swyddog o'r awdurdod lleol at y diben hwnnw.